Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Grange**

**Caerfyrddin**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Grange

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Consensus Support Services Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn gadarnhaol am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Gwelsom lawer o ryngweithio caredig, gofalgar a llawn dealltwriaeth drwy gydol yr arolygiad.  Mae'r gweithwyr cymorth brwdfrydig a gwybodus wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac ystyrlon â'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'u teilwra i'r unigolyn dan sylw ac yn rhoi arweiniad effeithiol i'r gweithwyr cymorth ynghylch y ffordd orau o ddiwallu anghenion y bobl.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gan y darparwr. Mae'r ystafelloedd unigol wedi'u personoli'n llawn ac maent yn cyfleu'r unigolion sy'n byw ynddynt. Mae offer a chyfarpar cyfathrebu hygyrch ar gael er mwyn i'r bobl gynnal eu hannibyniaeth.

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn effeithiol gan reolwr cefnogol sy'n hawdd mynd ati. Mae'r rheolwr yn adnabod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn drwy systemau sicrhau ansawdd sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth wedi'u personoli, a gallant fanteisio ar gyfleoedd gwahanol sy'n gwella eu llesiant. Mae'r gweithwyr cymorth yn annog y bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt yn y gwasanaeth ac yn eu cymuned leol. Mae'r bobl yn cadw mor iach â phosibl gan fod y rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr, gweithwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau personol. Gall y bobl bennu nodau sydd o bwys iddynt gyda chymorth gan eu gweithwyr allweddol.

Mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau cymaint â phosibl a chânt eu cefnogi i weithio tuag at eu nodau unigol. Mae'r gweithwyr cymorth yn deall anghenion y bobl ac yn cymryd amser i feithrin cydberthnasau cadarnhaol a llawn ymddiriedaeth â'i gilydd. Gall y bobl ddewis siarad Cymraeg neu Saesneg, ac mae'r gwasanaeth yn defnyddio llawer o ddulliau creadigol a hygyrch i gyfathrebu â'r bobl.

Mae'r bobl yn gyfforddus yn y gwasanaeth ac yn gwneud eu hunain yn gartrefol yno. Mae'r adeilad mewn cyflwr da i gefnogi'r bobl i fod mor ddiogel ac annibynnol â phosibl. Gall y bobl wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt, fel rhyngweithio â'i gilydd, chwaraeon, chwarae gemau cyfrifiadurol, ymlacio a mwynhau'r ardaloedd awyr agored. Mae'r darparwr yn ystyried amgylchiadau personol y bobl, drwy sicrhau bod y cartref ac ystafelloedd y bobl yn hybu eu llesiant unigol.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed gan fod y prosesau recriwtio a hyfforddi staff yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr ac yn cysgodi staff profiadol er mwyn dod i adnabod y bobl. Caiff datblygiad proffesiynol parhaus ei annog ac mae'r rheolwr yn cefnogi'r holl staff i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon.

Ceir diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y gwasanaeth. Mae gan y bobl lais am fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu hadnabod yn dda ac yn eu cynnwys mewn ymweliadau Rheoliad 73 chwarterol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio er mwyn helpu i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a gânt. Cânt eu cefnogi gan dîm o weithwyr brwdfrydig ac ymrwymedig sy'n deall anghenion a dewisiadau penodol pob unigolyn. Gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol ac ystyrlon rhwng y bobl a'r holl staff drwy gydol yr arolygiad. Mae'r gweithwyr cymorth yn defnyddio cyfuniad o iaith arwyddion, dull cyfnewid lluniau a'r Gymraeg a'r Saesneg yn fedrus i sicrhau bod y cyfathrebu'n effeithiol. Wrth drafod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *“I love the interaction with people and how happy they are”.*

Mae'r darparwr wedi cyflwyno system gynllunio electronig effeithiol. Mae’r bobl, eu cynrychiolwyr, gweithwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu cynlluniau personol. Mae'r dogfennau yn gyfredol, gyda chanllawiau cywir ar y ffordd orau o gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau unigol. Wrth adolygu'r cynlluniau personol, mae'r rheolwr yn gwerthuso gwybodaeth gan y staff ac adroddiadau'r gweithwyr allweddol. Mae asesiadau risg cadarnhaol yn helpu i gynnal diogelwch ac yn annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys ac mae eu cyngor yn cael ei adlewyrchu yn y cynlluniau. Mae'r gweithwyr allweddol yn cynnal cyfarfodydd adolygu misol gyda'r bobl i'w helpu i asesu, adolygu ac addasu'r nodau y maent yn gweithio tuag atynt. Gwelsom y staff yn cefnogi'r bobl yn unol â'r canllawiau penodol a nodir yn eu cynlluniau personol. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *“They (cynlluniau personol) are thorough and useful”.*

Mae'r gwasanaeth yn annog y bobl i fod mor egnïol â phosibl gyda'r nod o wneud pethau sy'n bodloni eu dewisiadau unigol. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau y tu allan i'r cartref fel; nofio, siopa, bwyta allan a cherdded mewn mannau hardd lleol. Mae'r bobl yn gwneud pethau yn y gwasanaeth fel; coginio, chwarae gemau, garddio, ymarfer corff, gwylio teledu, celf, crefft a threulio amser tawel ar eu pen eu hunain.

Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi recriwtio staff newydd i sicrhau bod nifer digonol o weithwyr gofal ar gael. Mae'r rheolwr yn amlwg yn dyrannu gweithwyr cymorth yn unol ag anghenion y bobl, er mwyn eu galluogi i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth mewn cyflwr da, yn gartrefol ac yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau unigol yn ddiogel. Mae'r bobl yn gyfforddus ac yn gartrefol iawn yn eu cartref. Mae'r décor yn adlewyrchu dewisiadau'r bobl. Ceir llawer o ardaloedd mawr i'r bobl gymdeithasu â'i gilydd neu dreulio amser yn ymlacio'n dawel. Mae'r darparwr hefyd wedi adnewyddu un o'r ardaloedd byw cymunedol, wedi gosod cegin newydd ac yn bwriadu gwneud gwelliannau pellach i'r décor ac ardaloedd allanol y cartref.

Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd drwy ddewis cynlluniau lliw, dodrefn, ffotograffau, ornamentau, cyfarpar ffitrwydd a thechnoleg eu hunain. Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn y gerddi yn garddio, yn gwneud gweithgareddau chwaraeon ac yn ymlacio yn yr ardaloedd patio. Caiff adnoddau cyfathrebu cynhwysol megis lluniau a symbolau eu gosod yn ofalus o gwmpas y cartref i annog y bobl i gynnal eu hannibyniaeth.

Mae gan y darparwr systemau cadarn ar waith i sicrhau y caiff archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd o'r eiddo eu cwblhau. Mae'r staff yn cwblhau'r profion gofynnol ar y cyfarpar diogelwch tân. Caiff archwiliadau iechyd a diogelwch eu cwblhau gan yr uwch-staff drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng yn gyfredol ac ar gael mewn argyfwng.

Mae'r gegin wedi cael sgôr o 5 ar gyfer safonau bwyd. Mae'r gweithwyr cymorth yn annog y bobl i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl wrth gynllunio, siopa a choginio prydau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau effeithiol iawn ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r darparwr wedi cyflwyno system sicrhau ansawdd gydag archwiliadau manwl a chynlluniau gweithredu i ymdrin ag unrhyw faterion a nodwyd. Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol yn dda iawn. Mae ymweliadau chwarterol statudol yr Unigolyn Cyfrifol yn gynhwysfawr gan ei bod yn edrych ar nifer o archwiliadau ac yn cynnwys y bobl a'r staff. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *“She (Unigolyn Cyfrifol) is very nice and friendly. She is always polite and fair”.* Caiff gwybodaeth o archwiliadau ansawdd, ynghyd ag unrhyw wersi a ddysgwyd ac adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eu defnyddio yn yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis.

Mae gan y rheolwr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y ddogfennaeth yn ddefnyddiol, yn gyfredol ac yn cefnogi'r staff i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r rheolwr yn arwain drwy esiampl er mwyn creu diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adnabod y bobl yn dda. Gwelsom lawer o ryngweithio cyfforddus a chyfeillgar rhwng y rheolwr a'r bobl. Mae'r rheolwr yn hawdd mynd ati ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *“She (rheolwr) is really helpful and supportive. She has the right values and cares about us all”.*

Mae cofnodion yn dangos bod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cael arfarniadau blynyddol, ond mae'r staff yn gwerthfawrogi polisi drws agored y rheolwr. Dywedodd gweithiwr cymorth, *“[Y rheolwr] is always available for us all, especially the people we support”.* Mae gan y gweithwyr cymorth ddealltwriaeth dda ynghylch diogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt i'r rheolwr, y darparwr neu'r awdurdod lleol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i arwain y gweithwyr cymorth ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r rhai allweddol.

Caiff gwiriadau cyn cyflogi megis geirdaon, hawl i weithio a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r staff newydd yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr ac yn cysgodi aelod profiadol o staff, sy'n eu paratoi ar gyfer y rôl. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael cyfuniad o hyfforddiant gorfodol ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae hyfforddiant sy'n benodol i'r unigolyn hefyd yn helpu'r gweithwyr cymorth i ddiwallu anghenion unigol y bobl yn effeithiol. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym, *“The training is really informative”.* Mae'r Rheolwr yn helpu gweithwyr cymorth i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru a hyrwyddo sgiliau pellach drwy gymwysterau proffesiynol.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod nifer digonol o weithwyr gofal ar gael i ddiwallu anghenion unigol y bobl a hyrwyddo eu dewisiadau. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr cymorth cyfarwydd a chyson.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/09/2024